





Ein gwaith yng Nghymru

Cyngor
Meddygol
Cyffredinol



Cynnwys

Rhagair	02
Beth rydym yn ei wneud	04
Ein presenoldeb yng Nghymru	05
2025 mewn niferoedd	07
Ein strategaeth	20
Ein gwaith yng Nghymru 2025	21
Edrych tua'r dyfodol	29
Gweithio gyda ni	32

[This publication is available in English](#) on our website.

[Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn Saesneg](#) ar ein gwefan.

Rhagair

Mae gwasanaethau iechyd yng Nghymru, fel mewn mannau eraill yn y DU, yn parhau i weithredu mewn amgylchedd cymhleth a heriol, wedi'i siapia gan y galw cynyddol a phwysau'r gweithlu. Fel rheoleiddiwr proffesiynol, rydym yn cynnal safonau ar gyfer gofal diogel i gleifion ac yn gweithio gydag eraill ar draws y system ar y materion sy'n effeithio ar sut mae gofal yn cael ei ddarparu'n ymarferol.

2025 oedd blwyddyn olaf ein strategaeth 2021-25. Dros y cyfnod hwnnw o bum mlynedd, mae cyfansoddiad y gweithlu meddygol wedi amrywio, gan ddod â chyfluoedd a heriau. 2025 hefyd oedd y flwyddyn lawn gyntaf i ni reoleiddio cymdeithion meddygol a chymdeithion anaesthesia. Mewn cyddestun sy'n esblygu drwy'r amser, mae cydweithio agos a rhannu gwybodaeth ar draws y system yn bwysicach nag erioed.

Rydym yn gweithio gydag eraill i lywio'r gwaith o gynllunio ar gyfer dyfodol gwasanaethau yng Nghymru a ledled y DU. Yn 2025, fe wnaethom gyflwyno tystiolaeth i ymchwiliad Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Senedd i ymarfer cyffredinol, a rhannu gwybodaeth o'n data â thîm ymchwil y pwyllgor.

Wrth i broffil y gweithlu newid, mae'n hanfodol ein bod yn parhau i ganolbwyntio'n gryf ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.

Drwy gydol 2025, bu ein tîm allgymorth yn gweithio gyda meddygon, myfyrwyr meddygol, arweinwyr clinigol ac addysgwyr ledled Cymru i wreiddio ymarfer cynhwysol a theg mewn bywyd proffesiynol bob dydd, helpu timau i greu a meithrin amgylcheddau parchus, cydnabod a mynd i'r afael â rhagfarn, a thrin cydweithwyr a chleifion yn dosturiol.

Bu'r tîm hefyd yn gweithio gyda byrddau iechyd i wreiddio cyfathrebu traws-ddiwyllynnol mewn sesiynau cynefino gwell, gyda'r nod o gryfhau'r gefnogaeth i feddygon sydd wedi cymhwyso'n rhyngwladol sy'n ymuno â'r gweithlu, gan eu galluogi i weithio'n hyderus ac yn effeithiol mewn amgylchedd newydd. Buom hefyd yn gweithio gyda swyddogion cyfrifol i hyrwyddo tegwch a chysondeb mewn prosesau addasrwydd i ymarfer lleol.

Cafodd yr un dull ei ddefnyddio yn Fforwm Cynghori'r DU, lle buom yn trafod pam mae cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn sylfaenol i ofal diogel i gleifion. Bu'r cyfranogwyr yn archwilio sut y gall tystiolaeth gan gynnwys data o Safon Cydraddoldeb Hiliol y Gweithlu i Gymru, a'n data gweithlu ein hunain yn gallu llywio gwelliant ar draws y system. Ers hynny, rydym wedi ymgysylltu â Llywodraeth Cymru i archwilio sut gallai'r ddealltwriaeth ddyfnach hon helpu i gefnogi camau gweithredu ymarferol.

Wrth edrych ymlaen at ein strategaeth 2026-30, un flaenoriaeth allweddol yw moderneiddio'r ddeddfwriaeth sy'n sail i'n gwaith. Mae llawer o'r fframwaith deddfwriaethol presennol yn dyddio'n ôl dros bedwar degawd ac ni chafodd ei greu gyda system gofal iechyd heddiw mewn golwg.

Rydym hefyd yn ymwneud â phennu'r cyfeiriad ar gyfer addysg a hyfforddiant meddygol yn y dyfodol. Wrth i'r gweithlu newid, mae'r boblogaeth cleifion yn newid hefyd, a'n cyfrifoldeb ni yw sicrhau bod ein safonau'n cael eu cynnal. Rhaid strwythuro addysg a datblygiad proffesiynol i roi'r sgiliau a'r wybodaeth i feddygon, cymdeithion meddygol a chymdeithion anaesthesia i fodloni anghenion cleifion, wrth addasu i ymarfer modern a llwybrau gyrfa.

Bydd ein rhaglen waith yn y maes hwn yn gosod y sylfeini ar gyfer gyrfaedd cynaliadwy mewn gwasanaeth iechyd sydd angen sefydlogrwydd a chadw talent. Hwn fydd yr adolygiad llawn cyntaf

o'r safonau addysg mewn degawd; ymrwymiad sylweddol a fydd yn cymryd amser. Ein nod yw sicrhau bod y model diwygiedig yn adlewyrchu anghenion cleifion, gweithwyr proffesiynol a'r gwasanaethau iechyd nawr ac yn y blynyddoedd i ddod.

Mewn system dan bwysau sy'n newid yn gyflym, ein rôl yw cynnig eglurder, cysondeb a sicrwydd i gleifion a'r cyhoedd. Bydd gweithio gyda phartneriaid ledled Cymru yn ein helpu i barhau i gefnogi meddygon, cymdeithion meddygol a chymdeithion anaesthesia i roi gofal da a diogel i'r bobl rydym ni'n eu gwasanaethu.



Charlie Massey

Charlie Massey
Y Prif Weithredwr



Carrie MacEwen

Yr Athro Fonesig Carrie MacEwen
Cadeirydd

Beth rydym yn ei wneud

Ni yw rheoleiddiwr annibynnol meddygon, cymdeithion meddygol (PA) a chymdeithion anaesthesia (AA)* yn y Deyrnas Unedig.†

Rydym yn gweithio gyda nhw a rhanddeiliaid eraill i wneud y canlynol:

- gosod y safonau gofal cleifion ac ymddygiad proffesiynol y mae angen i feddygon, cymdeithion meddygol a chymdeithion anaesthesia eu bodloni
- sicrhau bod meddygon, cymdeithion meddygol a chymdeithion anaesthesia yn cael yr addysg sydd eu hangen arnynt i roi gofal da a diogel i gleifion
- cadarnhau pwy sy'n gymwys i weithio fel meddyg, cydymaith meddygol neu gydymaith anaesthesia yn y DU a gweithio gyda nhw a'u cyflogwyr i gadarnhau bod yr wybodaeth sydd ganddynt yn gyfredol a'u bod yn bodloni'r safonau proffesiynol a osodwyd gennym.
- rhoi arweiniad a chynghor i helpu meddygon, cymdeithion meddygol a chymdeithion anaesthesia i ddeall yr hyn sy'n ddisgwyliedig ganddynt
- ymchwilio i bryderon fod risg i ddiogelwch cleifion, neu i hyder y cyhoedd mewn meddygon, cymdeithion meddygol neu gymdeithion anaesthesia, a chymryd camau os oes angen.



* Rydym yn ymwybodol bod newidiadau i'r teitlau hyn wedi cael eu cynnig yn [Adolygiad Leng](#) ac mae Llywodraeth y DU yn ystyried eu rhoi ar waith. Yn y cyfamser, er mwyn gwneud yn siŵr bod ein prosesau rheoleiddio a'n dogfennau'n parhau i fod yn glir ac yn gyson, rydym yn parhau i ddefnyddio'r teitlau ar gyfer y gweithwyr proffesiynol cofrestredig hyn sydd wedi'u nodi yn y gyfraith ar hyn o bryd.

† Ceir rhagor o wybodaeth am ein gwaith ledled y DU drwy ddarllen ein [hadroddiad blynyddol](#) diweddaraf, sydd ar gael ar ein gwefan.

Ein presenoldeb yng Nghymru

Sefydlwyd ein swyddfa yng Nghaerdydd yn 2006 fel rhan o'n hymrwymiad parhaus i gefnogi meddygon ac i wella ein dealltwriaeth o'r system iechyd yng Nghymru. Mae ein tîm yng Nghymru yn ymgysylltu â meddygon, cymdeithion meddygol, cymdeithion anaesthesia, cleifion, cyflogwyr, myfyrwyr, addysgwyr a rhanddeiliaid ledled y wlad.

Mae ein [Cyngor](#) yn goruchwyllo ein gwaith fel rheoleiddiwr yng Nghymru. Mae'r Cyngor yn chwarae rhan hollbwysig yn y gwaith o osod ein nodau strategol, ac o gynnal ein ffocws ar gefnogi'r gweithlu i roi gofal da a diogel i gleifion. Mae'n cynnwys deuddeg aelod: chwe aelod lleyg a chwe aelod cofrestredig.

Fel rhan o'n hymrwymiad i reoleiddio'r pedair gwlad, ac mewn cytundeb â'r Cyfrin Cyngor, mae un swydd Cyngor wedi'i neilltuo'n ffurfiol ar gyfer person sy'n byw neu'n gweithio'n bennaf yng Nghymru. Ym mis Ionawr 2025, roeddem yn falch o groesawu'r Athro Keith Lloyd fel ein haelod newydd o'r Cyngor dros Gymru.

Perthnasoedd allweddol

Fel rhan o'n gwaith, rydym yn cynnal perthynas agos â Llywodraeth Cymru.

Neil Roberts, Cyfarwyddwr Adnoddau'r GMC, yw'r uwch reolwr sy'n gyfrifol am y berthynas hon. Mae'n cefnogi ein Cadeirydd, ein Prif Weithredwr a'n tîm yng Nghymru i ymgysylltu ag uwch swyddogion ynghylch polisi'r llywodraeth. Ddwy waith y flwyddyn, rydym yn dod â'n partneriaid ynghyd drwy ein [Fforymau Cyngori'r DU](#). Mae'r partneriaid yn cynnwys:

- cynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru
- arweinwyr a chynrychiolwyr gofal iechyd
- cynrychiolwyr cyrff addysg
- cynrychiolwyr o gyrff gwella
- mudiadau sy'n cynrychioli cleifion.



Gethin Matthews-Jones, Pennaeth GMC Cymru, sy'n gyfrifol am bennu cyfeiriad ein gwaith a chyflawni ein strategaeth gorfforaethol yng Nghymru. Mae gan Gethin dros ddeng mlynedd o brofiad o weithio mewn rolau polisi a chyfathrebu yn y sector iechyd ac elusennol yng Nghymru, ac mae'n siaradwr Cymraeg rhugl.

Mae'r Fforwm yn ein galluogi i ganolbwyntio ar flaenoriaethau hirdymor, ceisio barn am ddatblygu polisi, a nodi meysydd o ddiddordeb cyffredin sy'n gofyn am gydweithrediad. Mae'r wybodaeth a rennir drwy'r Fforwm yn amhrisiadwy o ran gwella ein dealltwriaeth o'r heriau sy'n wynebu'r proffesiynau rydym yn eu rheoleiddio, ac i adnabod sut gallwn weithio gyda'n partneriaid i fynd i'r afael â'r heriau hynny.

Rydym yn ceisio bod yn rhagweithiol o ran gwella gwybodaeth ac ymwybyddiaeth o'n gwaith, a'r gefnogaeth rydym ni'n ei chynnig i feddygon, cymdeithion meddygol, cymdeithion anaesthesia, cleifion a'n partneriaid gwerthfawr yn y system gofal iechyd yng Nghymru.

Gweithio gydag eraill

Mae ein tîm polisi a materion allanol yn gweithio gyda rhanddeiliaid yng Nghymru i godi ymwybyddiaeth o'n rôl a'n swyddogaethau, cefnogi'r gwaith o ddatblygu ein polisi a'n canllawiau, a rhannu data a gwybodaeth i wella systemau ac ymarfer, gyda'r nod o wella diogelwch cleifion.

Mae ein timau allgymorth, a'n cydweithwyr sy'n gyfrifol am sicrhau ansawdd addysg, yn gweithio'n agos gyda sefydliadau yn y system gofal iechyd yng Nghymru i gydweithio wrth hyrwyddo a galluogi gofal da a diogel i gleifion drwy gynghori meddygon ar sut i ymarfer yn unol â'r safonau rydym yn eu gosod, ac i gefnogi'r gwaith o reoli pryderon yn effeithiol ar lefel leol.

Fel rhan o'n tîm allgymorth, mae ein cynghorwyr cyswllt yn cynnig cyfleoedd dysgu a datblygu i feddygon, cymdeithion meddygol, cymdeithion anaesthesia a myfyrwyr i helpu i wella eu dealltwriaeth o'r safonau a sut i'w cymhwyso yn eu gwaith o ddydd i ddydd. Yn 2025, fe wnaethant hwyluso 41 o sesiynau gydag 867 o feddygon yng Nghymru, a 7 sesiwn gyda 259 o fyfyrwyr meddygol yng Nghymru. Un o'n rolau allweddol yw gosod y safonau ar gyfer darparwyr addysg a hyfforddiant. Mae ein cydweithwyr sicrhau ansawdd addysg a'n cynghorwyr cyswllt yn gweithio'n agos gydag ysgolion meddygol yng Nghymru, darparwyr cyrsiau cymdeithion meddygol a chymdeithion anaesthesia, ac Addysg a Gwellu Iechyd Cymru i wneud yn siŵr bod y safonau hynny'n cael eu cyflawni. Mae'r tîm hefyd yn gweithio i fynd i'r afael â heriau mewn amgylcheddau hyfforddi wrth iddynt ddod i'r amlwg.

Rydym hefyd yn rhoi cymorth o ran ailddilysu ac addasrwydd i ymarfer: mae ein cynghorydd cyswllt cyflogwyr yn cefnogi cyrff gofal iechyd i reoli pryderon yn lleol, gan gynnwys rhoi cyngor ar y trothwyon ar gyfer atgyfeirio unigolion cofrestredig at ein prosesau addasrwydd i ymarfer.

Wrth i wasanaethau iechyd ledled y DU barhau i fod dan bwysau, rydym wedi ymrwymo i weithio gyda'n partneriaid i ddeall yr heriau y mae hyn yn eu cyflwyno i weithwyr proffesiynol a'r cyhoedd, a'r gefnogaeth sydd ei hangen ar y gweithlu er mwyn cynnig a chynnal safonau uchel o ofal cleifion.

Drwy ein data a'n hadroddiadau, rydym wedi ceisio taflu goleuni ar wahaniaethau mewn profiadau meddygon a deinameg a demograffeg newidiol y proffesiwn. Rydym yn parhau i ddefnyddio'r data hwn i lywio ac ymgysylltu â'n partneriaid yn system gofal iechyd Cymru ac ar draws y DU wrth iddynt geisio datblygu mwy o fodolau cynaliadwy o ofal cleifion ar gyfer y dyfodol, yn ogystal â mesurau sy'n cefnogi'r gweithlu cyfan i ffynnu.

2025 mewn niferoedd

Y gofrestr

Meddygon ar gofrestr

Cymru			Y DU		
2024	% newid	2025	2024	% newid	2025
14,594	↑ +2.8%	15,009	393,357	↑ +4.4%	410,566


Mae hynny'n 2.7% o bob meddyg yn y DU.

Gogledd Iwerddon			Yr Alban		
2024	% newid	2025	2024	% newid	2025
9,008	↑ +6.3%	9,574	26,475	↑ +3.2%	27,326

Mae hynny'n 2.3% o bob meddyg yn y DU.


Mae hynny'n 6.7% o bob meddyg yn y DU.

Meddygon ar y gofrestr yn ôl lleoliad y cymhwyster meddygol sylfaenol (PMQ)




Mae'r holl ffigurau ar gyfer 31 Rhagfyr 2025 a 2024 yn y drefn honno, oni nodir yn wahanol. Mae'r holl ganrannau wedi'u talgrynnu i'r degfed ran agosaf o ganran: mewn rhai achosion mae'n bosibl na fydd y niferoedd yn cyfateb i 100% yn union. Ewch i [GMC Data Explorer](#) i ddysgu mwy am addysg ac ymarfer meddygon yn y DU.

Meddygon ar y gofrestr yn ôl rhywedd*




Meddygon ar y gofrestr yn ôl ethnigrwydd

Cymru




Y DU




* Mae'r data hwn yn cynnwys pob meddyg ar y gofrestr, gyda thrwydded i ymarfer neu heb drwydded i ymarfer. Yn 2025, fe wnaethom sicrhau cydraddoldeb rhwng y rhywiau ar y gofrestr ar gyfer meddygon sydd â thrwydded i ymarfer. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn ein [harchif newyddion](#).


Yn 2025 yn y DU, roeddem wedi caniatáu:



Cyfanswm y meddygon ar y Gofrestr Meddygon Teulu




Cyfanswm y meddygon ar y Gofrestr Arbenigol



Meddygon dan hyfforddiant yng Nghymru

Roedd **3,414** o feddygon dan hyfforddiant yng Nghymru yn 2025. *




* Yn seiliedig ar yr Arolwg hyfforddiant cenedlaethol. I gael rhagor o wybodaeth ac i ddarllen canfyddiadau'r arolwg yn fanylach, ewch i dudalennau'r [Arolwg hyfforddiant cenedlaethol](#) ar ein gwefan.

Cymdeithion meddygol ar y gofrestr




Cymdeithion meddygol ar y gofrestr yn ôl rhywedd




Cymdeithion meddygol ar y gofrestr yn ôl ethnig rhywedd


Cymru




Y DU



Cymdeithion anaesthesia ar y gofrestr




Cymdeithion anaesthesia ar y gofrestr yn ôl rhywedd*




Cymdeithion anaesthesia ar y gofrestr yn ôl ethnigrwydd

Cymru



Y DU




* Nid oedd cymdeithion anaesthesia ar y gofrestr yng Ngogledd Iwerddon yn 2025.

Gosod a chynnal safonau

Ailddilysu

Rhaid i bob meddyg trwyddedig sy'n ymarfer meddygaeth yn y Deyrnas Unedig brofi ei fod yn bodloni ein safonau bob pum mlynedd drwy broses o'r enw ailddilysu. Mae ailddilysu yn cefnogi meddygon i ddatblygu eu hymarfer, yn sbarduno gwelliannau mewn llywodraethiant clinigol ac yn rhoi hyder i gleifion bod meddygon yn addas i ymarfer.



* Gall meddygon dderbyn mwy nag un argymhelliad.

† Os nad yw meddyg yn bodloni gofynion ailddilysu, os ydynt yn darparu gwybodaeth dwyllodrus neu'n methu â darparu tystiolaeth y gofynnir amdani'n rhesymol, gallwn dynnu eu trwydded yn ôl yn gyfreithiol. Mae'r broses hon yn wahanol i'r broses o gael eich tynnu oddi ar y gofrestr, er enghraifft, yn dilyn gwrandawriad y Gwasanaeth Tribiwnlys Ymarferwyr Meddygol.

Allgymorth

Mae ein timau allgymorth yn gweithio gyda sefydliadau yn system gofal iechyd Cymru i alluogi meddygon i weithio i'n safonau ac i reoli pryderon ar lefel leol.

Yn 2025, darparodd ein timau allgymorth hyfforddiant ar ein safonau i:

29,886 41

o feddygon mewn 934 sesiwn

o'r sesiynau hyn wedi cael eu cynnal yng Nghymru

yn cynnwys

867

o feddygon yng Nghymru.

Dywedodd **80%** o feddygon ledled y DU a gymerodd ran mewn sesiwn allgymorth y byddent yn newid eu hymarfer o ganlyniad.

Roedd y timau hefyd wedi darparu hyfforddiant i

16,619 7

o fyfyrwyr meddygol mewn 141 sesiwn ledled y DU.

o'r sesiynau hyn wedi cael eu cynnal yng Nghymru

yn cynnwys

259

myfyrwyr yng Nghymru

Roedd ein cynghorwyr cyswllt cyflogwyr wedi cynnal

1,174

o gyfarfodydd â swyddogion cyfrifol ledled y DU.

Fe wnaethant hefyd roi cyngor ar addasrwydd i ymarfer i

3,137

o feddygon.

Mae ein timau allgymorth hefyd yn cynnal gweithdai sydd â'r nod o helpu meddygon sy'n newydd i ymarfer yn y Deyrnas Unedig i addasu i weithio yn systemau gofal iechyd y DU. Yn 2025, cynhaliwyd

257

Gweithdy *Croeso i Ymarfer yn y DU* ledled y DU

yn cynnwys

8,800

o feddygon.


Goruchwylio addysg a hyfforddiant meddygol

Sicrhau ansawdd

Rydym yn rheoleiddio pob cam o addysg a hyfforddiant israddedig ac ôl-raddedig meddygon, gan osod safonau a chyflawni gwaith sicrhau ansawdd (QA) i wneud yn siŵr bod y rhain yn cael eu cynnal. O 2025 ymlaen, fel rhan o'n dyletswydd statudol, rydym hefyd yn gosod safonau ar gyfer darparwyr cyrsiau cymdeithion meddygol a chymdeithion anaesthesia, ac rydym yn gwirio bod y rhain yn cael eu bodloni'n rheolaidd drwy ein prosesau sicrhau ansawdd rhagweithiol ac adweithiol.

Drwy ein proses sicrhau ansawdd ragweithiol, rydym yn gwneud yn siŵr bod ysgolion meddygol, sefydliadau hyfforddi ôl-raddedigion, a darparwyr cyrsiau cymdeithion meddygol a chymdeithion anaesthesia yn parhau i fodloni ein safonau. Rydym yn penderfynu pa sefydliadau sy'n gallu dyfarnu cymhwyster meddygol sylfaenol yn y DU neu gymhwyster cymdeithion meddygol neu gymdeithion anaesthesia yn y DU.

Mae ein prosesau sicrhau ansawdd adweithiol yn hyrwyddo ac yn annog rheolaeth leol o ran pryderon am ansawdd a diogelwch addysg a hyfforddiant, lle gellir mynegi a monitro materion sy'n dod i'r amlwg. Os nad yw'r materion yn cael eu datrys neu'n gwaethygu, gellir uwchgyfeirio achosion sy'n ymwneud â hyfforddiant meddygol ôl-raddedig i'n proses fonitro uwch, a ddefnyddiwn i fynd i'r afael â phryderon difrifol lle mae angen cymorth ychwanegol.



* Rydym bob amser yn cynnal o leiaf un gweithgaredd QA addysg ym mhob sefydliad bob blwyddyn. Efallai y byddwn hefyd yn cynnal gweithgareddau dilynol ar sail argymhellion sefydliadau neu ein canfyddiadau. Caiff y rhain eu cyfrif yn ein cyfansymiau. Mae hyn yn anochel yn arwain at amrywiad ystadegol yn nifer y gweithgareddau sicrhau ansawdd yr ydym yn eu cyflawni o un flwyddyn i'r llall.

† Fel arfer, mae achosion monitro uwch yn ymwneud ag uned neu adran benodol mewn darparwr addysg lleol (LEP). Gall monitro ymwneud â mwy nag un pryder yn yr un Darparwr Addysg Lleol, a gall pryder gaiff ei fonitro effeithio ar fwy nag un uned, neu ymddiriedolaeth neu fwrdd iechyd cyfan.

‡ Fel gydag ymweliadau sicrhau ansawdd, nid yw pob ymweliad monitro uwch yn arwain at uwchgyfeirio neu isgyfeirio. Mewn rhai achosion mae'r ymweliadau'n canolbwyntio ar fonitro cynnydd tuag at ddatrys materion a oedd wedi cael eu huwchgyfeirio o'r blaen. Felly, ni fydd cyfanswm yr ymweliadau o reidrwydd yn cyfateb i nifer yr achosion newydd neu agored nac achosion y mae eu statws wedi newid yn ystod y flwyddyn.


§ Mae'r manylion diweddaraf am achosion monitro uwch sydd wedi'u hagor a'u cau ar gael yn GMC Data Explorer (gweler [Monitro uwch mewn amgylcheddau hyfforddi](#) ar ein gwefan am ragor o wybodaeth).

Ymchwilio i bryderon a gweithredu arnynt


Un o'n prif rolau fel rheoleiddiwr yw ymchwilio a gweithredu ar bryderon a fynegwyd i ni am ein hunigolion cofrestredig. Ar gyfer meddygon, rydym yn rhannu'r broses hon yn dri cham, sef 'Brysbennu', 'Ymchwiliad' a 'Penderfyniad'. Rydym fel arfer yn cyrraedd 'Penderfyniad' o fewn chwe mis, ond mae hyd pob cam yn dibynnu ar amrywiaeth o ffactorau ac felly, mewn rhai achosion, gall y broses gymryd nifer o flynyddoedd. Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth am y broses hon drwy ein tudalennau gwe [Sut rydym yn ymchwilio i bryderon am feddygon](#), ac am ein proses ar gyfer cymdeithion meddygol a chymdeithion anaesthesia drwy ein tudalennau gwe [Sut rydym yn ymchwilio i bryderon am gymdeithion meddygol a chymdeithion anaesthesia](#).

Allwedd:

- Cam brysbennu
- Cam ymchwiliad
- Cam penderfynu ar achos
- Gorchmynion interim



Yn parhau o'r dudalen flaenorol



Pryderon a fynegwyd am feddygon*

13,465 o bryderon wedi'u mynegi i ni yn 2025 ledled y DU.

↑ Mae hyn 25% yn fwy nag yn 2024 (10,769 o bryderon).

318 o bryderon yn ymwneud â digwyddiadau a ddigwyddodd yng Nghymru.

↓ Mae hynny 40.4% yn llai nag yn 2024 (534 o bryderon).

216 (67.9%) o'r pryderon yn ymwneud â digwyddiadau yng Nghymru wedi'u codi gan aelodau o'r cyhoedd.

Mae hyn yn is nag yn 2024 (72.6%), ac mae'n is na chanran y pryderon a godwyd gan y cyhoedd ledled y DU yn 2025 (80%).

Ymchwiliadau

Nid yw'r holl bryderon a godwyd gyda ni yn cyrraedd ein trothwy ar gyfer ymchwiliad. Weithiau, mae'n well delio â phryder ar lefel leol neu drwy gael sgwrs â'r meddyg, neu dylid ei ddwyn gerbron sefydliad arall. Dim ond pan fyddwn ni'n canfod y gallai fod risg i ddiogelwch cleifion neu i hyder y cyhoedd mewn meddygon y byddwn ni'n gweithredu.

37 (6.9%) o'r pryderon a gawsom yn 2025 ynglŷn â digwyddiadau yng Nghymru wedi cyrraedd ein trothwy ar gyfer ymchwiliad.

Mae hyn yn is nag yn 2024 (14.6%), ond yn uwch na'r ganran ar gyfer yr holl bryderon a oedd yn cyrraedd y trothwy ar draws y DU drwyddi draw yn 2025 (7%).

Canlyniadau†

Cafodd **13** o'r ymchwiliadau i ddigwyddiadau yng Nghymru eu cwblhau heb unrhyw gamau gweithredu.

Mewn **4** achos fe wnaethom roi rhybudd.

Mewn **3** achos fe wnaethom gyfeirio'r achos at y Gwasanaeth Tribiwnlys Ymarferwyr Meddygol.


Mewn **3** achos cytunodd y meddyg ar ymgymeriadau.

Mewn **2** achos fe wnaethom roi cyngor.

* Yn 2025, nid oedd nifer y pryderon a godwyd ynghylch cymdeithion meddygol/cymdeithion anaesthesia yn ddigon uchel i wneud yn siŵr eu bod yn anhysbys pan adroddwyd amdanynt. Bydd pryderon a chanlyniadau cymdeithion meddygol/cymdeithion anaesthesia a gyhoeddir yn y dyfodol yn cael eu hadolygu pan fydd rhagor o ddata ar gael.

† Canlyniadau ymchwiliadau a ddaeth i ben yn 2025.

Canlyniadau tribiwnlysoedd yr MPTS*



* Mae'r ffigurau hyn yn cyfeirio at dribiwnlysoedd ar gyfer meddygon yn unig. Nid oedd unrhyw dribiwnlysoedd ar gyfer cymdeithion meddygol na chymdeithion anaesthesia yn 2025.

Ein strategaeth

Cafodd ein gwaith yn 2025 ei siapio gan ein strategaeth gorfforaethol ar gyfer 2021-25, a oedd yn nodi pedair thema i'n helpu i gyflawni ein gweledigaeth ar gyfer 2030 i fod yn rheoleiddiwr effeithiol, perthnasol a thosturiol, gan sicrhau manteision cyson i gleifion a'r rheini sy'n gofalu amdanynt.

Roedd yn mynegi ein nodau i wreiddio newid cadarnhaol ac i gefnogi gweithlu meddygol sy'n fwyfwy amrywiol i roi gofal da ar draws systemau gofal iechyd gwahanol y DU.

Fe'i datblygwyd gyda, ac ar gyfer, cleifion, meddygon a'n partneriaid ym maes gofal iechyd ledled y DU gan adlewyrchu ein hymrwymiad i feithrin diwylliant o gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ym mhopeth a wnawn, fel rheoleiddiwr ac fel cyflogwr.

Ers hynny, rydym wedi lansio strategaeth gorfforaethol newydd, ar gyfer 2026 i 2030. Mae ein [strategaeth 2026–2030](#) yn parhau â'n strategaeth 2021-2025 mewn sawl ffordd, oherwydd mae ein gweledigaeth yn aros yr un fath.

Themâu strategol 2021-25



Ein gwaith yng Nghymru yn 2025

Llesiant a diwylliant

Mae ein gwaith ar lesiant a diwylliant, yng Nghymru ac ar draws y DU, yn cael ei lywio gan ddata ein cofrestr, ein harolygon a gomisiynir a'n hymchwil - cyhoeddir crynodeb yn ein hadroddiadau [Cyflwr addysg ac arfer meddygol yn y DU](#).

Yn 2025, dangosodd yr adroddiadau hyn welliannau graddol ym mhrofiadau meddygon yn y gweithle am yr ail flwyddyn yn olynol. Mae bodlonrwydd meddygon wedi gwella, mae eu risg o orweithio wedi lleihau, ac mae llwythi gwaith wedi dechrau mynd yn haws. Fodd bynnag, mae'r data'n dal i beri mwy o bryder nag yn 2019, cyn pandemig y coronafeirws. Mae gwasanaethau iechyd ledled y DU o dan straen difrifol o hyd, ac mae hyn yn effeithio ar y cyhoedd a'r proffesiwn fel ei gilydd. Mae rhai arbenigeddau'n benodol yn teimlo'r straen, gyda 44% o feddygon teulu yn dweud eu bod yn cael trafferth gyda llwythi gwaith o'i gymharu â 29% o'r holl feddygon.

Mae gwahaniaethau hefyd yn bodoli o ran nodweddion personol a gwarchoddedig. Yn gyffredinol, roedd meddygon o leiafrifoedd ethnig a raddiodd yn y DU wedi cael profiadau gwaeth na meddygon gwyn a raddiodd yn y DU a'r holl feddygon a raddiodd y tu allan i'r DU, gyda 24% mewn perygl uchel o orweithio (o'i gymharu â 18% o'r holl feddygon). Roedd meddygon anabl yn dal i adrodd am fwy o brofiadau negyddol na meddygon nad ydynt yn anabl.

Er bod meddygon yng Nghymru wedi adrodd am brofiadau a oedd yn gyffredinol yn debyg iawn i gyfartaledd y DU, roeddent yn fwy tebygol na chyfartaledd y DU o nodi amrywiaeth o rwystrau rhag rhoi gofal da i gleifion. Roedd hyn yn cynnwys staffio annigonol (81% o'i gymharu â chyfartaledd y DU o 72%), arweinyddiaeth sefydliadol wael (52% o'i gymharu â chyfartaledd y DU o 45%), a diffyg mynediad at gyfarpar neu wasanaethau angenrheidiol

(53% o'i gymharu â 44% ar gyfartaledd yn y DU). Yn fwy cadarnhaol, roedd gwelliannau sylweddol o un flwyddyn i'r llall yn y sgoriau a roddodd meddygon yng Nghymru ynghylch bod yn rhan o dîm cefnogol (78% gyda newid cadarnhaol o 10% o un flwyddyn i'r llall), ac roeddent yn teimlo bod ganddynt ddigon o ymreolaeth yn eu rôl (67% gyda newid cadarnhaol o 10% o un flwyddyn i'r llall).

Drwy gydol 2025, fe wnaethom barhau i weithio gyda byrddau iechyd yng Nghymru i fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â'r gweithlu mewn ffordd bwrpasol ac agored. Cyflwynodd ein tîm allgymorth sesiynau ar gyfer 867 o feddygon mewn byrddau iechyd ledled Cymru ar bynciau fel arweinyddiaeth dosturiol, rheoli ymddygiad amhroffesiynol, sut i gefnogi meddygon sydd wedi cymhwyso'n rhyngwladol, *Arfer meddygol da* ar waith, a rheoli pryderon yn deg. Nod y sesiynau hyn yw sicrhau gwelliannau amlwg o ran dealltwriaeth gweithwyr proffesiynol o'r safonau y mae angen iddynt eu cynnal, gan gynnwys cefnogi'r rhai sydd wedi dioddef gwahaniaethu neu ymddygiad annerbyniol, neu sydd wedi bod yn dyst i hynny. Dywedodd 89% o'r rhai a oedd yn bresennol y byddai eu harferion yn newid o ganlyniad i gymryd rhan yn y gweithdy.

Lle bo'n briodol, rydym hefyd yn gweithio'n agos gyda'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC) i gyflwyno sesiynau ar y cyd i feddygon a nyrsys. Er enghraifft, ym mis Tachwedd a mis Rhagfyr 2025, fe wnaethom gynnal tri gweithdy ar 'Empathi ar Waith - Delio â Gwrthdaro drwy Arweinyddiaeth Dosturiol' i feddygon a nyrsys ym maes obstetreg a bydwreigiaeth yn Wrecsam, Ysbyty Gwynedd ac Ysbyty Glan Clwyd. Mewn arolwg adborth, dywedodd 100% o'r rhai a oedd yn bresennol y byddai eu harferion yn newid o ganlyniad i wybodaeth a gafwyd yn y sesiwn.

Ein gwaith gyda swyddogion cyfrifol

Drwy gydol y flwyddyn, roedd ein timau allgymorth hefyd wedi rhoi cyngor ar aildilysu ac addasrwydd i ymarfer i swyddogion cyfrifol, eu timau mewn byrddau iechyd a darparwyr annibynnol. Uwch feddyg sy'n gyfrifol am lywodraethiant clinigol yw Swyddog Cyfrifol, ac mae'n canolbwyntio ar yr ymddygiad a pherfformiad meddygon eraill. Ymhlith pethau eraill, maent yn gwerthuso addasrwydd meddyg i ymarfer, ac yn gwneud argymhelliad aildilysu i ni.

Os codir pryder am addasrwydd meddyg i ymarfer, anogir swyddogion cyfrifol i ystyried tegwch yn eu prosesau lleol fel rhan o'n gwaith parhaus i leihau'r cyfraddau atgyfeirio anghymesur sy'n gysylltiedig ag ethnigrwydd a lleoliad y cymhwyster meddygol sylfaenol. Mae hyn yn cynnwys trafod argymhellion [Fair to refer?](#), fel mewnbwn gan berson annibynnol sydd wedi'i hyfforddi a defnyddio amrywiaeth o fframweithiau gwneud penderfyniadau sydd wedi cael eu datblygu yn y DU. Eleni, bu ein cynghorydd cyswllt cyflogwyr hefyd yn hwyluso gweithdy ar degwch a rhagfarn ddjarwybod mewn cyfarfod o Rwydwaith Swyddogion Cyfrifol Cymru.

Fel rhan o'u gwaith, mae ein Cynghorydd Cyswllt Cyflogwyr yn nodi themâu a meysydd blaenoriaeth

sy'n deillio o drafodaethau gyda swyddogion cyfrifol, a sicrhau bod swyddogion cyfrifol yn cael eu cyfeirio at gymorth perthnasol, gan gynnwys cyflwyno gweithdai rhyngweithiol lle bo hynny'n briodol. Rydym hefyd wedi ystyried cysondeb a chyfleoedd i gydweithio mewn meysydd eraill, er enghraifft gweithio ar Safonau Cydraddoldeb Hiliol y Gweithlu gyda Llywodraeth Cymru, ac osgoi niwed i weithwyr drwy ymchwiliadau, gan weithio gydag Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) a'r Gymdeithas Rheoli Pobl Gofal Iechyd.

“Mae ein cyswllt [â'r GMC] yn ein helpu i reoli materion gyda'r gweithlu meddygol yn llawer mwy effeithiol.”

Adborth gan Swyddog Cyfrifol

“Mae eich egni a'ch ymroddiad i yrru'r agenda tegwch yn ei blaen wedi bod yn hynod o ysbrydoledig.”

Adborth gan Swyddog Cyfrifol

Rydym wedi parhau i gynnull a hwyluso cyfarfodydd i alluogi Swyddogion Cyfrifol i rannu cynnydd ac arferion da. Fe wnaethom gynghori ar bwrpas a chylch gorchwyl Swyddogion Cyfrifol a grwpiau cynghori proffesiynol, yn ogystal â rhestrau gwirio a chanllawiau eraill, i wneud yn siŵr eu bod yn adlewyrchu'r tegwch a'r ystyriaethau cyd-destunol y mae ein hymchwil wedi'u dangos fel y rhai pwysicaf. Gan weithio gydag NHS Resolution, fe wnaethom hefyd ddatblygu pecyn hyfforddi arfaethedig ar gyfer y rheini sy'n rheoli pryderon a fydd yn cael ei dreialu ddechrau 2026. Rydym yn disgwyl i'r gwaith



hwn ledled Cymru wneud cyfraniad pwysig at ein dyheadau ar gyfer y rhaglen *Atgyfeiriadau Tecach gan Gyflogwyr* ac yn fwy cyffredinol at ein gwaith i hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.

Rhoi cymorth i gleifion

Dylai pob claf gael gofal o safon uchel. Ein rôl yw helpu i gyflawni hynny drwy weithio'n agos gyda meddygon, cymdeithion meddygol, cymdeithion anaesthesia, cyflogwyr ac eraill i sicrhau bod cleifion yn cael eu clywed, a'u hanghenion yn cael eu bodloni.

Drwy gydol 2025, rydym wedi gweithio mewn partneriaeth â'r NMC i ymateb i faterion a godwyd gan ymchwiliadau i ofal mamolaeth. Fel rhan o'r gwaith hwn, rydym ni'n gweithio i adolygu'r wybodaeth rydym yn ei darparu ynghylch ein rôl, i sicrhau bod teuluoedd yn gwybod pwy ydym ni, yn ymwybodol o'r gwaith rydym ni'n ei wneud ac yn deall sut gallwn ni eu cefnogi nhw - yng Nghymru a ledled y DU.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru asesiad cenedlaethol o wasanaethau mamolaeth a newyddenedigol yng Nghymru ym mis Gorffennaf. Fe wnaethom gyfrannu fel aelod o banel rhanddeiliaid yr asesiad, ac ymuno â'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, Gwella Iechyd Cymru ac NHS Resolution ar banel ar gyfer rheoleiddwyr yng Nghynhadledd Dysgu Mamolaeth a Newyddenedigol Bae Abertawe ym mis Hydref. Rydym hefyd wedi gweithio gyda Llais, corff llais y claf yng Nghymru, i edrych ar sut y gallwn ni gefnogi eu gwaith gyda chleifion a theuluoedd o ran gofal mamolaeth. Ac ym mis Hydref, fe wnaethom gwrdd â Phrif Swyddog Bydwreigiaeth Cymru i ystyried sut gallai ein data a'r cymorth rydym yn ei gynnig helpu i fynd i'r afael â'r materion a godwyd yn yr adroddiad.



Yn fwy cyffredinol, mae ein cyfarfod bwrdd crwn grŵp cleifion ledled y DU yn gyfle i gwrdd â grwpiau sy'n cynrychioli cleifion o bob un o'r pedair gwlad ddwywaith y flwyddyn, gan gynnwys cynrychiolwyr o Llais. Ym mis Medi 2025, fe wnaethom hefyd groesawu Llais i Fforwm Cyd-reoleiddwyr Safonau'r Gymraeg, lle bu cynrychiolwyr o'r sefydliad yn rhannu gwybodaeth am yr hyn maent yn ei glywed gan gleifion ynghylch mynediad at wasanaethau gofal iechyd Cymraeg.

Yn ogystal â'r gweithgareddau hyn, gwnaethom hefyd barhau i gymryd rhan yn yr Uwchgynhadledd Gofal Iechyd a drefnwyd ddwywaith y flwyddyn gan AGIC, gyda phartneriaid yn cynnwys y llywodraeth, rheoleiddwyr eraill, cyrff gwella a chyrff llais y claf. Mae'r uwchgynadledau hyn yn rhoi lle i rannu gwybodaeth am ansawdd a diogelwch gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru.

Gweithio gyda phartneriaid

Roedd ein cyfarfodydd Fforwm Cynghori'r DU ddwywaith y flwyddyn - a gynhaliwyd gydag uwch gynrychiolwyr ein partneriaid allanol yng Nghymru - yn caniatáu i ni gael trafodaethau cyfoethog ar lefel system ynghylch sut gallwn ni ac eraill weithio gyda'n gilydd i wneud yn siŵr bod y gweithlu'n cyfranogi ac yn gallu cyflawni. Pwysigrwydd cydraddoldeb,

amrywiaeth a chynhwysiant o ran sicrhau gofal diogel i gleifion oedd ffocws y Fforwm a gynhaliwyd gennym yng Nghaerdydd ym mis Ebrill 2025, lle trafodwyd pwysigrwydd harneisio data cadarn, fel yr un o Safon Cydraddoldeb Hiliol Gweithlu Cymru, a data ein gweithlu. Arweiniodd hyn at ragor o sgysiau drwy gydol y flwyddyn am gyfleoedd i driongli ffynonellau data, gan gynnwys bwrdd crwn data gyda Llywodraeth Cymru ac AaGIC a gynhaliwyd yn nes ymlaen yn y gwanwyn. Ystyriodd y Fforwm hefyd y berthynas rhwng diwylliant sefydliadol, ymddygiad proffesiynol a diogelwch cleifion, gan gynnwys sut mae tîm allgymorth GMC Cymru yn cydweithio â chyfarwyddwyr clinigol i fynd i'r afael â heriau mewn amgylcheddau gwaith. Gan arwain ymlaen o'r trafodaethau am sgiliau rheoli gwrthdaro, newid ac arweinyddiaeth dosturiol, fe wnaethom gefnogi gweithdai Arweinyddiaeth Glinigol Uwch AaGIC ym mis Tachwedd.

Roedd cyfarfod hydref Fforwm Cynghori'r DU yn cydnabod bod cryfhau arweinyddiaeth glinigol yn flaenoriaeth yng Nghymru, fel y nodir yn adroddiad Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Berfformiad a Chynhyrchiant y GIG. Roedd y drafodaeth yn canolbwyntio ar gefnogi gweithlu sydd wedi'i rymuso i arwain, gofynion dull arwain sy'n canolbwyntio ar y claf, a phwysigrwydd grymuso pob meddyg i ddatblygu sgiliau arwain. Roedd y Fforwm yn gyfle gwerthfawr i gasglu gwybodaeth i lywio'r adolygiad o'n canllawiau ar arweinyddiaeth a rheolaeth, ac ar godi a gweithredu ar bryderon am ddiogelwch cleifion. Arweiniodd hefyd at syniadau y gellir gweithredu arnynt ynghylch gwreiddio arweinyddiaeth mewn hyfforddiant a datblygu gyrfa, gyda'r gwersi a ddysgwyd yn cael eu bwydo'n ôl i dîm Future Ed y GMC.

Drwy gydol y flwyddyn, fe wnaethom hefyd rannu ein data a'n gwybodaeth i gyfrannu at sgysiau

ehangach am y gweithlu. Roedd hyn yn cynnwys cyflwyno tystiolaeth i ymchwiliad Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Senedd i ddyfodol meddygaeth deulu, a chyfarfod â thîm ymchwil y Senedd i rannu canfyddiadau o'n hadroddiadau [Cyflwr addysg ac arfer meddygol yn y DU](#) a'r arolwg hyfforddiant cenedlaethol. Fe wnaethom hefyd roi adborth ar Fframwaith Cymhwysedd Gofal Lliniarol a Diwedd Oes AaGIC, ac ar Strategaeth AGIC 2026-30.

“Rwy'n falch bod y GMC yn ymwybodol o'r materion niferus sy'n wynebu meddygon o ran cyfrifoldebau arwain.”

Adborth gan feddyg yn dilyn sesiwn allgymorth

“Byddaf yn fwy ystyriol o'n hyfforddeion ac yn eu deall yn well. Rwy'n gwybod mwy am agweddau ac arweinyddiaeth.”

Adborth gan feddyg yn dilyn sesiwn allgymorth

Cefnogi gweithwyr newydd

Yn ystod y flwyddyn, parhaodd ein tîm allgymorth i gefnogi sesiynau cynefino i feddygon sydd wedi cymhwyso'n rhyngwladol sy'n ymuno â system iechyd Cymru. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r meddygon hyn wedi dod i ffurfio cyfran gynyddol o broffesiwn meddygol y DU. Er bod arwyddion bod hyn bellach yn sefydlogi, yn ôl ein data diweddaraf, parhaodd nifer y meddygon sydd wedi cymhwyso'n rhyngwladol i gynyddu, er bod hynny ar gyfradd is. Er bod meddygon sydd wedi cymhwyso'n rhyngwladol yn cyfrif am gyfran lai o weithlu Cymru o'i gymharu â'r DU drwyddi draw (sef 45.9% yn

2025), mae eu cyfran gyffredinol yng Nghymru yn dal i dyfu: yn 2025, roedd meddygon a raddiodd y tu allan i'r DU yn cyfrif am 38.1% o'r gweithlu yng Nghymru, o'i gymharu â 33.7% yn 2021.

Drwy ymgysylltu ag ysgolion meddygol Cymru, fe wnaethom gefnogi myfyrwyr meddygol i ddeall y safonau proffesiynol a ddisgwylir ar ôl ennill cofrestriad dros dro. Er enghraifft, yn Ysgol Feddygol Prifysgol Bangor, defnyddiodd ein gweithdy 'Arweinyddiaeth a Rheolaeth' sefyllfaoedd o gyfyng gyngor moesegol i ysgogi trafodaeth ar ddeddfwriaeth berthnasol – gan gynnwys y Ddeddf Cydraddoldeb a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol - ac edrych ar sut mae [Arfer meddygol da](#) yn cefnogi'r broses o wneud penderfyniadau sy'n gadarn, yn deg ac yn seiliedig ar y gyfraith.

Yn Ysgol Feddygol Abertawe, cynhaliodd ein cynghorydd allgymorth weithdai ar broffesiynoldeb i fyfyrwyr blwyddyn gyntaf, gan gynnwys defnyddio cyfryngau cymdeithasol. Ar gyfer myfyrwyr blwyddyn olaf, roedd gweithdai 'Paratoi ar gyfer ymarfer' yn ymdrin ag amrywiaeth o sefyllfaoedd moesegol y gallent eu hwynebu pan fyddant yn dechrau bywyd fel Meddyg Sylfaen.

“Ar ôl y gweithdy, gallaf nawr weld bod y GMC yn sefydliad cefnogol yn hytrach na theimlo ofn rhag cael fy atgyfeirio atynt. Eglurodd y siaradwr lawer o bethau y mae pobl yn teimlo'n nerfus yn eu cylch yn draddodiadol.”

Myfyriwr ysgol feddygol Abertawe

“Roedd cynrychiolydd y GMC... yn ddifyr ac yn rhyngweithiol iawn.”

Myfyriwr ysgol feddygol Bangor

Ar 13 Rhagfyr 2024, fe wnaethom ddechrau rheoleiddio cymdeithion meddygol a chymdeithion anaesthesia. Yn 2025, fe wnaethom ymgysylltu â 54 o gymdeithion meddygol, cymdeithion anaesthesia a myfyrwyr yng Nghymru ar rôl rheoleiddio a phroffesiynoldeb yn ymarferol, gan egluro a rhoi sicrwydd yn y rolau, yn ogystal ag edrych ar adnoddau'r GMC i gefnogi ymarfer diogel.

“Byddaf yn fwy tebygol o gysylltu â'r GMC i gael cymorth ac arweiniad.”

Adborth gan gydymaith meddygol/anaesthesia

Fe wnaethom hwyluso gweithdy yn rhwydwaith Swyddogion Cyfrifol Cymru a oedd yn canolbwyntio ar oruchwylio cymdeithion meddygol a chymdeithion anaesthesia, gan gynnwys edrych ar adnoddau newydd perthnasol y GMC. Fe wnaethom hefyd gynnal gweminar ar y cyd ar reoleiddio cymdeithion meddygol a chymdeithion anaesthesia ar gyfer cyflogwyr, ac roedd y rhai a oedd yn bresennol yn cynnwys cynrychiolaeth dda o gyflogwyr yng Nghymru.

“Dydw i ddim yn teimlo bod y GMC yno i'ch cosbi chi, ond yno, yn hytrach, yno i gynnig cymorth i chi.”

Adborth gan gydymaith meddygol/anaesthesia

Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

Drwy gydol 2025, cryfhaodd ein tîm allgymorth ei ffocws ar hyrwyddo tegwch, parch, cynhwysiant ac ymddygiad cefnogol yn y gweithle ar draws yr holl weithgareddau ymgysylltu â rhanddeiliaid, meddygon a myfyrwyr meddygol.

Yn hytrach na gosod cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant fel pwnc ar ei ben ei hun, cafodd yr egwyddorion hyn eu plethu'n fwriadol i amrywiaeth eang o weithdai, cyfarfodydd, a sesiynau datblygu.

Roedd y dull integredig hwn yn galluogi cyfranogwyr i fyfyrion ar sut roedden nhw a'u cydweithwyr yn:

- trin cleifion a chymheiriaid yn deg a heb wahaniaethu
- meithrin amgylcheddau gwaith cynhwysol, parchus a chefnogol
- osgoi ymddygiad sy'n tanseilio eraill, gan gynnwys bwlio, aflonyddu neu ficro-ymosodiadau
- cydnabod a lliniaru rhagfarn wrth wneud penderfyniadau clinigol a phroffesiynol.

I gefnogi'r nodau hyn, cyflwynodd ein tîm allgymorth amrywiaeth eang o weithgareddau ledled Cymru, gan gynnwys:

- **datblygu hyfforddwyr.** Fe wnaethom gyflwyno sesiynau ar sgysiau adborth tecach ac ar gyfathrebu traws-ddiwyllynnol effeithiol yn ystod sesiynau cynefino gwell i feddygon sydd wedi cymhwyso'n rhyngwladol, yn ogystal â gweithdy pwrpasol i helpu hyfforddwyr ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan i gefnogi meddygon sydd wedi cymhwyso'n rhyngwladol.

- **datblygu arweinyddiaeth.** Fe wnaethom gynnal gweithdy ar arweinyddiaeth dosturiol ac adborth tecach fel rhan o Raglen Arweinyddiaeth Glinigol Uwch Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar gyfer uwch aelodau byrddau iechyd. Fe wnaethom hefyd gynnal sesiynau ar uwchgyfeirio pryderon yn deg ac yn gyson i hyfforddwyr ac arweinwyr, gan ganolbwyntio ar reoli pryderon yn dosturiol ac yn gefnogol ac ar nodi a deall prosesau uwchgyfeirio addas, yn ogystal â sesiwn ar reoleiddio tosturiol yn y gynhadledd Arweinyddiaeth Dosturiol mewn Obstetreg a Gynaecoleg.
- **gwreiddio cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant mewn sesiynau hyfforddi.** Mae'r tîm wedi integreiddio egwyddorion adborth tecach i weithdai hyfforddwyr, a chynnwys cyfathrebu trawsddiwyllynnol ym mhob rhaglen gynefino uwch mewn tri bwrdd iechyd yng Nghymru. Gwnaethom hefyd gyflwyno tair sesiwn gyfathrebu traws-ddiwyllynnol, a sesiwn sy'n canolbwyntio ar wahaniaethu ac aflonyddu rhywiol. Mae cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant hefyd wedi'u hymgorffori yn ein cymorth i fyfyrwyr meddygol.
- **gweithredu Arfer meddygol da.** Roedd y gweithdai niferus a gyflwynwyd gennym ar y ddogfen *Arfer meddygol da* wedi'i diweddarau yn canolbwyntio'n benodol ar y disgwyliadau Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant cryfach sy'n bresennol ym mhob un o bedwar maes y canllawiau.
- **rheoli pryderon yn decach.** Ochr yn ochr ag NHS Resolution, rydym wedi parhau i gefnogi gwaith sy'n cael ei wneud gan Grŵp Cyfarwyddwyr Meddygol Cymru Gyfan, sy'n canolbwyntio ar wella tegwch a chysondeb wrth reoli ac uwchgyfeirio pryderon.

Sicrhau ansawdd addysg

Un o'n prif rolau yw gosod y safonau ar gyfer darparwyr addysg a hyfforddiant, gan eu helpu i baratoi gweithlu meddygol y dyfodol i roi'r gofal gorau posibl i gleifion. Rydym yn gweithio'n agos gyda'r tair ysgol feddygol a'r ddau ddarparwr cyrsiau cymdeithion meddygol yng Nghymru, yn ogystal ag AaGIC, i wirio'n rheolaidd bod y safonau hynny'n cael eu cyrraedd drwy ein proses sicrhau ansawdd ragweithiol. Roeddem yn falch bod Prifysgol Bangor a Phrifysgol Abertawe wedi cael eu cymeradwyo'n ffurfiol gan y Cyngor ym mis Ebrill 2025 i gynnal cyrsiau cymdeithion meddygol, heb amodau.

Mae monitro uwch yn broses rydym yn ei defnyddio i wneud yn siŵr bod pryderon ynghylch ansawdd a diogelwch hyfforddiant ac addysg feddygol ôl-radd yn cael sylw mewn ffordd foddhaol a chynaliadwy. Rydym yn cyhoeddi gwybodaeth am faterion sy'n cael eu dadansoddi drwy'r broses hon, sy'n hybu tryloywder, yn sbarduno gwelliannau ac yn helpu sefydliadau i ddysgu oddi wrth ei gilydd. Ar 31 Rhagfyr 2025, roedd pedwar achos monitro uwch agored yng Nghymru.

Fel rhan o'n hymgysylltiad ehangach, ym mis Ionawr fe wnaethom gynnal cyfarfod bwrdd crwn addysg yng Nghaerdydd. Daeth hyn â rhanddeiliaid ynghyd gan gynnwys swyddogion y llywodraeth, cyrff addysg statudol a cholegau brenhinol i drafod dyfodol datblygu gyrfa ac addysg. Rhannodd y rhai a oedd yn bresennol eu barn am feithrin amgylcheddau dysgu cadarnhaol ar gyfer pob meddyg, ac ar gefnogi dysgu meddygon mewn rolau sy'n cael eu cyflogi'n lleol a rolau eraill nad ydynt yn ymwneud â hyfforddiant. Fis Hydref, cyflwynodd GMC Cymru a thimau addysg ein rhaglen Dyfodol Addysg a Datblygu Gyrfa yng nghynhadledd Rhannu Rhagoriaeth Hyfforddiant

mewn Addysg Feddygol (STEME) yn Abertawe. Gallwch ddarllen mwy am Future Ed yn y bennod 'Edrych tua'r dyfodol' yn yr adroddiad hwn.

Yn ystod 2024 a 2025, cynhaliodd ein cydweithwyr addysg adolygiad o fap cynnwys yr Asesiad Trwyddedu Meddygol. Mae'r Asesiad Trwyddedu Meddygol yn fframwaith asesu wedi'i ddylunio i brofi gwybodaeth, sgiliau ac ymddygiad craidd meddygon sy'n newydd i ymarfer meddygol yn y Deyrnas Unedig. Rhaid i fyfyrwyr sy'n graddio o ysgolion meddygol yn y DU ar ddiwedd blwyddyn academiaidd 2024/25 – ac mewn blynyddoedd academiaidd yn y dyfodol – fod wedi pasio'r Asesiad Trwyddedu Meddygol fel rhan o'u rhaglen gradd feddygol er mwyn i'r GMC gydnabod eu gradd fel cymhwyster meddygol sylfaenol.

Cynlluniwyd yr adolygiad o'r map cynnwys i wneud yn siŵr ei fod yn parhau i fod yn addas i'r diben fel adnodd ymarferol ar gyfer llunio cwestiynau arholiad a senarios asesu'r Asesiad Trwyddedu Meddygol. Wrth wneud y gwaith hwn, fe wnaethom ofyn am adborth gan rhanddeiliaid i sicrhau bod y map yn parhau i adlewyrchu'r wybodaeth, y sgiliau a'r ymddygiadau craidd sydd eu hangen ar gyfer mynediad i ymarfer meddygol yn y DU.

Yn unol â Safonau'r Gymraeg, fe wnaethom gynnwys ystyriaethau a chwestiynau yn ymwneud â'r Gymraeg fel rhan o'r holiadur rhanddeiliaid. Ar sail adborth gan rhanddeiliaid a'n hystyriaethau ynghylch effeithiau cadarnhaol cyfieithu, fe wnaethom benderfynu cyhoeddi fersiwn Gymraeg o'r map cynnwys wedi'i ddiweddarau. Croesawyd y penderfyniad hwn yn gadarnhaol gan bob un o'r tair ysgol feddygol yng Nghymru, sydd wedi ein cefnogi i fireinio'r cyfieithiad, rhannu gwybodaeth ac arfer da ar gyfieithu terminoleg glinigol a meddygol.

Safonau'r Gymraeg

Ers 6 Rhagfyr 2023 mae ein gwaith wedi bod yn ddarostyngedig i Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 8) 2022. Mae Safonau'r Gymraeg (y safonau) yn gosod dyletswydd statudol arnom i hwyluso'r Gymraeg a sicrhau nad yw'n cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae gwella ein cynnig Cymraeg yn cyfrannu at nod ein strategaeth gorfforaethol o wneud i bob rhyngweithiad gyfrif, ac mae'n gyfle i ddangos ymrwymiad y GMC i weithio'n gymwys ac yn sensitif ar draws y pedair gwlad.

Fis Medi 2025, fe wnaethom gyhoeddi [ein hadroddiad blynyddol ar ein gwaith i gydymffurfio â'r safonau](#) rhwng mis Ebrill 2024 a mis Mawrth 2025. Hwn oedd ein hadroddiad cyntaf a oedd yn ymdrin â blwyddyn lawn o weithredu'r safonau yn ein gwaith. Yn yr adroddiad, fe wnaethom dynnu sylw at feysydd i'w gwella ac arferion da ar draws gwahanol feysydd o'r safonau, ac ailadroddwyd ein hymrwymiad parhaus i wella ein darpariaeth Gymraeg yn unol â nhw.

Ymchwiliadau ac adolygiadau

Cafodd adolygiad annibynnol yr Athro Gillian Leng o ddiogelwch ac effeithiolrwydd cymdeithion meddygol a chymdeithion anaesthesia yn Lloegr ei gyhoeddi ym mis Gorffennaf 2025 a gwnaeth nifer o argymhellion ar gyfer gweithredu. Fis Rhagfyr, aethom i gyfarfod cyntaf Grŵp Cyngori Cymru Llywodraeth Cymru ar gyfer Adolygiad Leng, dan gadeiryddiaeth y Dirprwy Brif Swyddog Meddygol.

Edrych tua'r dyfodol

Adolygu canllawiau ar safonau proffesiynol

Mae ein safonau proffesiynol, a nodir yn *Arfer meddygol da*, yn cael eu hategu gan amrywiaeth o ganllawiau manylach sy'n ymhelaethu ar egwyddorion allweddol. Yn ystod 2026, byddwn yn cynnal adolygiadau o sawl darn o'r canllawiau manwl hyn.

'Arweinyddiaeth a Rheolaeth' a 'Mynegi pryderon am ddiogelwch cleifion a chymryd camau'

Rydym yn cynnal adolygiad manwl i sicrhau bod ein canllawiau ar y pynciau hyn yn adlewyrchu datblygiadau ar draws systemau gofal iechyd y DU a newidiadau cymdeithasol ehangach.

Mae arweinwyr a rheolwyr yn rhan hollbwysig o'r gwaith o siapio diwylliannau gweithleoedd lle mae staff yn teimlo'n ddiogel ac yn hyderus i godi llais heb ofni canlyniadau negyddol, a gyda'r sicrwydd y bydd gwneud hynny'n arwain at welliannau ystyrlon. Felly, rydym yn adolygu'r ddau ddarn hyn o ganllawiau gyda'i gilydd, gan edrych ar nifer o faterion cysylltiedig ar yr un pryd.

Ar ôl ymgynghori yn 2025, yn ystod 2026 byddwn yn ystyried yr hyn rydym wedi'i ddysgu ac yn drafftio canllawiau wedi'u diweddarau, gan weithio'n agos gyda fforwm cynghori pwrpasol. Ein nod yw cyhoeddi'r canllawiau wedi'u diweddarau yn nes ymlaen yn 2026.

'Credoau personol ac arfer meddygol'

Mae'r canllawiau'n nodi sut gall meddygon, cymdeithion meddygol a chymdeithion anaesthesia roi gofal diogel da i gleifion mewn ffordd sy'n cydfynd â'u credoau a'u gwerthoedd personol.

Mae credoau personol ac arferion diwylliannol yn ganolog i fywydau llawer o feddygon, cymdeithion meddygol, cymdeithion anaesthesia a chleifion - felly mae'n bwysig bod credoau personol ac ymarfer meddygol yn adlewyrchu anghenion a phrofiadau pawb y mae'n effeithio arnynt.

Byddwn yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar ddrafft wedi'i ddiweddarau o'r canllawiau am gyfnod o 12 wythnos.

'Cefnogi plant a phobl ifanc 0 – 18 oed'

Mae'r canllawiau hyn yn nodi sut y dylai meddygon, cymdeithion meddygol a chymdeithion anaesthesia roi gofal i gleifion ifanc, ystyried gallu pobl ifanc i gydsynio i driniaeth, asesu lles pennaf, a nodi ac amddiffyn plant sydd mewn perygl (ymhlith pynciau eraill).

Byddwn yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar ddrafft wedi'i ddiweddarau o'r canllawiau am gyfnod o 12 wythnos.

Gan fod ymgysylltu'n effeithiol â phlant a phobl ifanc yn rhan hanfodol o'r adolygiad hwn, rydym hefyd yn comisiynu ymchwil a hwylusir yn allanol i gasglu barn yn uniongyrchol gan bobl ifanc, rhieni a'r rhai sydd â chyfrifoldeb rhiant.

Diwygio rheoleiddiol, a rheoleiddio cymdeithion meddygol a chymdeithion anaesthesia

Ar 12 Mai 2025, cadarnhaodd Llywodraeth y DU ei hymrwymiad i flaenoriaethu diwygio rheoleiddio gweithwyr gofal iechyd proffesiynol. Rydym wedi eiriol dros ddiwygio ers tro byd, ac wedi croesawu'r cyhoeddiad hwn fel cam sylweddol tuag at greu

fframwaith sy'n gwasanaethu cleifion a'r gweithwyr proffesiynol rydym yn eu rheoleiddio yn well.

Mae'r ddeddfwriaeth bresennol, y mae rhannau ohoni bellach dros 40 oed, yn rhy gymhleth ac anhyblyg. Bydd ei moderneiddio yn rhoi fframwaith ymatebol i ni sy'n hybu hyder y cyhoedd, yn cefnogi meddygon, cymdeithion meddygol a chymdeithion anaesthesia yn well, ac yn ein helpu i ymateb yn gyflymach ac yn fwy hyblyg i newidiadau yn system gofal iechyd y DU.

Un ffocws mawr i ni yn ystod 2025 oedd gweithio'n agos gydag Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol Llywodraeth y DU wrth iddynt ddatblygu'r ddeddfwriaeth newydd, sef Gorchymyn y Cyngor Meddygol Cyffredinol (a fydd yn disodli'r Ddeddf Feddygol (1983)).

Lansiwyd ymgynghoriad yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar ein fframwaith rheoleiddio arfaethedig ar gyfer y dyfodol ar 24 Mawrth 2026. Ar ôl cwblhau'r ymgynghoriad hwnnw ac ar ôl i lywodraethau'r DU a'r llywodraethau datganoledig osod hyn gerbron deddfwrfeydd perthnasol, byddwn yn cynnal ein hymgyngoriad ein hunain ar y rheolau, y safonau a'r canllawiau sydd eu hangen i roi'r fframwaith newydd ar waith.

Ym mis Medi 2025, cadarnhaodd yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol hefyd y bydd yn ymgynghori ar deitlau proffesiynol newydd ar gyfer cymdeithion meddygol a chymdeithion anaesthesia - gyda'r nod o newid y rhain i 'gynorthwywyr meddyg' a 'chynorthwywyr meddyg mewn anaesthesia', fel yr argymhellwyd gan adolygiad yr Athro Gillian Leng o ddiogelwch ac effeithiolrwydd y rolau hyn. Rydym yn disgwyl i hyn fod yn rhan o'r ymgynghoriad ar ein fframwaith rheoleiddio arfaethedig ar gyfer y dyfodol, os bydd amser ar gael yn y senedd, bydd unrhyw newidiadau a ddaw yn cael eu rhoi gerbron Senedd y DU a Senedd yr Alban cyn diwedd 2026.

Dyfodol addysg a datblygiad gyrfa (Future Ed)

Mae gwasanaethau iechyd ledled y DU yn newid, wedi'u siapiro gan arloesedd, anghenion cleifion sy'n esblygu a gweithlu mwy amrywiol. Er mwyn sicrhau bod addysg feddygol ar flaen y gad, rydym yn cynnal adolygiad mawr o'n safonau, ein canlyniadau a'n canllawiau ynglŷn â'r maes hwn, gyda'r nod o gyflwyno fframwaith addysg wedi'i ddiweddarau erbyn 2030.

Mae ein gwaith ar y rhaglen hon wedi'i drefnu o amgylch tri phrif faes polisi: asesu, datblygu gyrfa, ac adolygu ein fframwaith addysg. Nod pob ffrwd waith yw sicrhau bod y system yn parhau i fod yn ddiogel, yn hyblyg ac yn ymatebol i ddemograffeg ac anghenion cleifion unigol sy'n newid, yn ogystal ag anghenion y gweithwyr proffesiynol ym maes hyfforddi a datblygu.

Yn 2025, fe wnaethom ehangu ein hymgysylltiad ar draws y pedair gwlad i ddeall beth sydd angen newid. Roedd hyn yn cynnwys trafodaethau gydag amrywiaeth eang o randdeiliaid, gan gynnwys addysgwyr, hyfforddwyr, cyflogwyr, staff ysgolion meddygol, partneriaid gofal iechyd, cynrychiolwyr cleifion a'r cyhoedd, yn ogystal â meddygon eu hunain. Mae eu gwybodaeth yn ein helpu i greu darlun cliriach o'r heriau a'r cyfleoedd sydd o'n blaenau.

Mae cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, ynghyd â phrofiadau cleifion a'r cyhoedd, yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o lywio ein ffordd o feddwl. Mae'r safbwyntiau rydym yn eu cael drwy ymgysylltu ynghylch y pynciau hyn yn ein helpu i wneud yn siŵr bod ein cynigion yn adlewyrchu anghenion y boblogaeth gyfan, ac rydym wedi ymrwymo i greu mwy o gyfleoedd i gael mewnbyn ystyrlon wrth i'r gwaith ddatblygu.

Yn 2026, byddwn yn parhau i brofi syniadau sy'n dod i'r amlwg gyda rhanddeiliaid ac yn paratoi ar gyfer ymgysylltu pellach. Bydd hyn yn cynnwys arolwg cynhwysfawr o feddygon sy'n cael eu cyflogi'n lleol yn y DU a meddygon arbenigol ac arbenigwyr cyswllt (SAS) - y cyntaf ers 2019 - er mwyn deall eu profiadau a'u cyfleoedd i gael gafael ar hyfforddiant yn well.

Bydd cydweithio ac ymgysylltu parhaus yn hanfodol wrth i ni ddatblygu fframwaith sy'n cefnogi gweithlu cynaliadwy ac sy'n cynnig gofal o ansawdd uchel i gleifion ledled y DU.

Gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol

Gan adeiladu ar ein hymgysylltiad ag elusennau, teuluoedd a'r Cyngor Nyrso a Bydwreigiaeth, rydym yn bwriadu cynhyrchu a dosbarthu taflen ddwyieithog am sut y gallwn helpu pobl sydd â phryderon am y gofal a gawsant hwy neu eu babi yn ystod beichiogrwydd, genedigaeth neu ar ôl geni. Byddwn yn ymateb i ganfyddiadau'r asesiad sicrwydd cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol, ac edrychwn ymlaen at barhau i weithio gyda Llais i wella ymwybyddiaeth o'n rôl.

Gweithio gyda ni

Mae rheoleiddio'n effeithiol ar draws pedair gwlad y DU yn mynnu ein bod yn cydnabod y gwahaniaethau yn y sectorau iechyd ar eu traws, a phwysigrwydd meithrin perthynas gref â phartneriaid a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau ynddynt. Mae ein tîm yng Nghymru bob amser yn awyddus i gwrdd ag aelodau o'r Senedd a phartneriaid eraill i rannu, yn ogystal â chael rhagor o wybodaeth am yr heriau a'r cyfleoedd sy'n nodweddu'r ddarpariaeth o wasanaethau iechyd yng nghyd-destun Cymru, a thrafod ffyrdd y gallwn gefnogi system iechyd y wlad a chyflawni ein nodau.

Fel rhan o hyn, rydym yn edrych ymlaen at ymgysylltu ag aelodau newydd ac aelodau sy'n dychwelyd o'r Senedd ar ôl yr etholiad ym mis Mai 2026.

Os hoffech chi, neu gydweithiwr, drefnu cyfarfod i ddysgu mwy am y cymorth a'r mewnwelediadau y gallwn eu cynnig, neu i gael unrhyw wybodaeth am dueddiadau yn y sector iechyd neu am ein gwaith yn gyffredinol, anfonwch e-bost atom yn gmcwales@gmc-uk.org.

Ar gyfer unrhyw beth arall, gan gynnwys codi pryderon am unrhyw weithwyr proffesiynol sydd wedi cofrestru gyda ni, neu am amgylcheddau hyfforddi, cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r sianeli a restrir ar dudalen olaf yr adroddiad hwn.

Rydym yn edrych ymlaen at chwarae ein rhan i gefnogi'r gwasanaeth iechyd yng Nghymru dros y flwyddyn nesaf.



E-bost: gmc@gmc-uk.org

Gwefan: gmc-uk.org

Ffôn: **0161 923 6602**

Y Cyngor Meddygol Cyffredinol, 3 Hardman Street, Manchester M3 3AW

Ffôn testun: **deialwch y rhag-rif 18001** yna

0161 923 6602 i ddefnyddio'r gwasanaeth Cyfnewid Testun.

Ymunwch â'r sgwrs



[instagram.com/gmcuk/](https://www.instagram.com/gmcuk/)



[facebook.com/gmcuk](https://www.facebook.com/gmcuk)



[linkd.in/gmcuk](https://www.linkedin.com/company/gmcuk/)



[youtube.com/gmcuktv](https://www.youtube.com/gmcuktv)

To ask for this publication in another format or language, please call us on **0161 923 6602** or email us at gmc@gmc-uk.org.

I ofyn am y cyhoeddiad hwn mewn fformat neu iaith arall, ffoniwch ni ar **0161 923 6602** neu e-bostiwch ni ar gmc@gmc-uk.org.

You are welcome to contact us in Welsh. We will respond in Welsh, without this causing additional delay.

Mae croeso i chi gysylltu â ni yn Gymraeg. Byddwn yn ymateb yn Gymraeg, heb i hyn achosi oedi ychwanegol.

Cyhoeddwyd ym mis Mehefin 2026

© 2026 Y Cyngor Meddygol Cyffredinol

Gellir atgynhyrchu testun y ddogfen hon yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod ei fod yn cael ei atgynhyrchu'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod mai deunydd dan hawlfraint y Cyngor Meddygol Cyffredinol yw hwn a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Mae'r Cyngor Meddygol Cyffredinol yn elusen wedi'i chofrestru yng Nghymru a Lloegr (1089278) a'r Alban (SC037750).

Code: GMC/ARW2025/0626